**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Rt Hon Jonathan Reynolds MP
Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach
Adran Busnes a Masnach
Llywodraeth y DU

Rt Hon Ed Miliband MP
Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net
Adran Diogelwch Ynni a Sero Net
Llywodraeth y DU

12 Awst 2024

Annwyl Jonathan and Ed,

**Yr Economi Werdd**

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd wedi bod yn cynnal ymchwiliad i'r economi werdd. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn edrych ar sut y gall Llywodraeth Cymru wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gyflwynir gan yr economi werdd, unrhyw rwystrau y mae Cymru'n eu hwynebu ar hyn o bryd, a sut i sicrhau bod gennym y sgiliau yng Nghymru i gefnogi'r newid i economi werdd. Mae hyn yn cynnwys ystyried y modd y gall Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i wireddu potensial yr economi werdd, a pha gymorth y bydd ei angen ar weithwyr a chyflogwyr fel rhan o gyfnod o drawsnewid cyfiawn.

Sylwaf fod Llywodraeth newydd y DU wedi gwneud llawer o ymrwymiadau sy'n ymwneud â mentrau economi werdd megis y Gronfa Cyfoeth Genedlaethol, sefydlu Ynni Prydain Fawr (neu Great British Energy) a'r gefnogaeth ehangach i ynni gwynt gan gynnwys gwynt arnofiol ar y môr. Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, byddai gennyf ddiddordeb mawr yn eich barn gynnar ar effaith yr ymrwymiadau hyn ar Gymru, a'r modd yr ydych yn bwriadu gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi'r economi werdd yma yng Nghymru, a chyfnod o drawsnewid cyfiawn.

Dylwn nodi bod y Pwyllgor yn cynnal gwaith penodol ar ddyfodol Dur Cymru sy'n cynnwys edrych ar y bwriad i gau'r ffwrnais chwyth sy'n weddill ym Mhort Talbot, cyfnod pontio Tata i gynhyrchu dur gyda ffwrnais arc trydan, a chymorth y gallai fod ei angen ar y gweithwyr yr effeithir arnynt, eu

teuluoedd a'u cymunedau yn ystod y cyfnod pontio hwn. Rydym yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ddod o hyd i ddyddiad priodol iddi roi tystiolaeth i'r Pwyllgor fel rhan o'r gwaith hwn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich barn ataf ar y mater hwn erbyn 11 Medi gan y bydd hyn yn rhoi amser inni ystyried eich ymateb, a'i ymgorffori yn yr adroddiad yr ydym yn gobeithio ei gyhoeddi yn yr hydref. Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Jo Stevens AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, er gwybodaeth iddi.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

CC: Jo Stevens MP, Ysgrifennydd Gwladol Cymru